Llywodraeth Cymru
Welsh Government

YSTADEGAU, DOGFENNU

# Refeniw a gwariant cyfalaf alldro awdurdodau lleol: Ebrill 2023 i Fawrth 2024 (canlyniadau pennawd)

Yn cynnwys data am awdurdodau'r heddlu, tân a pharciau cenedlaethol ar gyfer Ebrill 2023 i Fawrth 2024.

**Cyhoeddwyd gyntaf:** 17 Hydref 2024

**Diweddarwyd ddiwethaf:** 17 Hydref 2024

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**

Ewch i **https://www.llyw.cymru/refeniw-gwariant-cyfalaf-alldro-awdurdodau-lleol-ebrill-2023-i-fawrth-2024-canlyniadau-pennawd-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.

Gwybodaeth am **hawlfraint**.

# Cynnwys

**Refeniw**

**Cyfalaf**

**Manylion cyswllt**

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**

Ewch i **https://www.llyw.cymru/refeniw-gwariant-cyfalaf-alldro-awdurdodau-lleol-ebrill-2023-i-fawrth-2024-canlyniadau-pennawd-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.

Gwybodaeth am **hawlfraint**.

## Refeniw

Yn 2023-24, bu cynnydd o 6.5% i £10.7 biliwn yng nghyfanswm gwariant refeniw gros awdurdodau lleol Cymru. Roedd gwariant gros y pen yn £3,366 neu £147 yn uwch na'r flwyddyn flaenorol.

Cyn effaith y dirwasgiad a'r mesurau cyni a ddaeth yn ei sgil, adroddwyd yn rheolaidd am gynnydd blynyddol o 5% neu 6% ond ers 2010-11, dim ond yn ystod pum mlynedd yn unig y gwelwyd twf sy'n uwch na 2%, gyda phedair ohonynt wedi bod yn y pedair blynedd diwethaf.

Dros amser, mae gwasanaethau statudol fel addysg a gwasanaethau cymdeithasol wedi cael eu diogelu (ac ym maes gwasanaethau cymdeithasol y gwelwyd y cynnydd mwyaf mewn gwariant) ond, mewn gwasanaethau eraill fel llyfrgelloedd, ffyrdd a thrafnidiaeth a chynllunio, gwelwyd gostyngiadau cyffredinol ers 2010-11. Addysg a gwasanaethau cymdeithasol sydd i gyfrif yn awr am 68% o wariant cyffredinol awdurdodau unedol o'i gymharu â 59% yn 2010-11 a 60% ym 1999-2000.

## Cyfalaf

Bu cynnydd o 21.8% mewn gwariant cyfalaf yn 2023-24 i £1,914 miliwn neu £605 y pen o'r boblogaeth. Mae hyn yn cynrychioli cynnydd o £343 miliwn ar y flwyddyn flaenorol.

Yn gyffredinol, mae gwariant cyfalaf yn fwy anwadal a gall gael ei effeithio'n sylweddol gan fuddsoddiadau mawr neu addasiadau. Cynyddodd gwariant yn 2023-24 yn rhannol oherwydd cynnydd mewn addysg a thai.

Cafodd y rhan fwyaf o'r gwariant cyfalaf hwn ei wario gan awdurdodau unedol.

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**
Ewch i **https://www.llyw.cymru/refeniw-gwariant-cyfalaf-alldro-awdurdodau-lleol-ebrill-2023-i-fawrth-2024-canlyniadau-pennawd-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.
Gwybodaeth am **hawlfraint**.

Adroddodd awdurdodau’r heddlu, awdurdodau tân ac achub ac awdurdodau parciau cenedlaethol wariant o £47 miliwn, £18 miliwn a £4 filiwn yn eu trefn.

## Manylion cyswllt

Ystadegydd: Anthony Newby
E-bost: **ystadegau.cyllid@llyw.cymru**

Cyfryngau: 0300 025 8099

**Efallai na fydd y ddogfen hon yn hollol hygyrch.**
Drllenwch ein **datganiad hygyrchedd** i gael rhagor o wybodaeth.

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**
Ewch i **https://www.llyw.cymru/refeniw-gwariant-cyfalaf-alldro-awdurdodau-lleol-ebrill-2023-i-fawrth-2024-canlyniadau-pennawd-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.
Gwybodaeth am **hawlfraint**.